Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Moelfre
# Moelfre
# Ynys Môn
# LL72 8NA

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2013

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.


Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:



Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk



Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg)**



**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**



**Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2013**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymuned Moelfre ym Moelfre ar Ynys Môn. Adeiladwyd yr ysgol fel yr un gymunedol gyntaf yng Nghymru ym 1977 ac erbyn hyn, mae'r Cylch Meithrin, Uned Eilian ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn y dalgylch, uned iaith i hwyr ddyfodiaid, llyfrgell y pentref, canolfan i'r henoed a swyddfa clerc y Cyngor Cymuned wedi eu lleoli yn yr un adeilad.

Ysgol cyfrwng Cymraeg ydyw. Mae'r niferoedd wedi amrywio dros y 5 mlynedd diwethaf. Mae 63 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol yn cynnwys plant meithrin. Derbynnir plant i'r ysgol, yn rhan amser yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Daw 17% o ddisgyblion yr ysgol o gartrefi lle siaredir y Gymraeg yn y cartref. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o gefndir ethnig yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae 13% o ddisgyblion â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim sy'n is na chanrannau sirol a chenedlaethol. Mae 18% o'r disgyblion yn derbyn cymorth anghenion addysg ychwanegol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2012.

Y gyllideb fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymuned Moelfre yn 2012-2013 yw £6,509. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Môn yw £10,188 a'r lleiafswm yw £2,842. Mae Ysgol Gymuned Moelfre yn y 4ydd safle allan o'r 48 ysgol gynradd yn Sir Fôn o safbwynt y gyllideb fesul disgybl.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae sefyllfa cyfredol Ysgol Moelfre'n ddigonol oherwydd bod:

- perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau ysgolion eraill dros y ddwy flynedd diwethaf;
- rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu darllen;
- ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn; a bod
- cyfradd presenoldeb yn dda.

Fodd bynnag:

- nid oes digon o gynnydd yng ngwaith ysgrifennu disgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 o ran ystod ac ansawdd;
- mae gorgyfarwyddo yn llesteirio disgyblion hynaf yr ysgol rhag cymryd rôl fwy gweithredol yn eu dysgu;
- nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu medrau rhifedd ar draws yr ystod o bynciau; a
- nid yw'r ysgol yn defnyddio canfyddiadau'r asesu yn ddigon effeithiol i osod targedau.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir a phendant ar gyfer yr ysgol;
- y pennaeth yn arwain ac yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r staff i ddatblygu cymuned weithgar a gofalgar sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar gyflawniad disgyblion;
- pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau; a bod
- y cynllun datblygu ysgol yn amlinellu blaenoriaethau priodol, sy'n ffocysu ar godi safonau.

Fodd bynnag:

- nid yw rôl y tîm rheoli wedi datblygu'n llawn i gael effaith gadarnhaol ar arweinyddiaeth yr ysgol;
- nid yw'r corff llywodraethol yn herio ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad;
- nid yw adroddiad hunanarfarnol yr ysgol yn ddigon arfarnol na dadansoddol mewn mannau; a
- nid oes cyswllt digon clir rhwng hunanarfarnu'r ysgol a'r cynllun datblygu ysgol er mwyn pennu cyfeiriad strategol.

## Argymhellion

A1 Codi safonau ysgrifenedig estynedig ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A2 Sicrhau bod cynlluniau gwaith yn dangos yn glir datblygiad yn y medrau

A3 Gwella ansawdd yr addysgu yng nghyfnod allweddol 2 a darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion hynaf yr ysgol ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol a chymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain

A4 Gwella trefniadau asesu a gwneud gwell defnydd o asesiadau i ymateb yn effeithiol i anghenion pob disgybl

A5 Cryfhau rôl tîm rheoli'r ysgol er mwyn dylanwadu yn fwy penodol ar safonau.

A6 Mireinio trefniadau hunanarfarnu'r ysgol a sicrhau bod blaenoriaethau'r cynllun datblygu wedi eu seilio'n fwy penodol ar y canfyddiadau.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Gymuned Moelfre yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn gyffredinol ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Gymuned Moelfre yn gwrando'n astud, ac yn cyfrannu'n frwdfrydig at weithgareddau'r dosbarth. Yn fuan yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu'n ddysgwyr hyderus ac yn gwneud cynnydd da yn unol â'u gallu. Datblygir hyn ymhellach yng nghyfnod allweddol 2.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd addas yn erbyn eu targedau.

Yn y Cyfnod Sylfaen ac ym mlwyddyn 3, mae disgyblion yn dilyn cyfarwyddiadau'n hyderus ac yn cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg gan ddangos gafael dda ar gystrawen. Er hynny, nid yw ychydig o ddisgyblion hynaf yr ysgol mor hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar. Mae diffyg geirfa a hyder yn llesteirio sgwrsio rhydd y disgyblion hyn. Mae mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn llawer mwy hyderus wrth sgwrsio trwy gyfrwng y Saesneg. Gall rhan fwyaf y disgyblion sgwrsio'n ddeallus o fewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gan ddefnyddio geirfa estynedig. Erbyn diwedd y cyfnod, mae medrau trawsieithu mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n briodol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu darllen ac yn darllen llyfrau'n ystyrlon ac yn rhugl. Erbyn diwedd y cyfnod, gallant sgwrsio am eu hoff lyfrau gan gyfeirio at ddigwyddiadau yn y llyfr. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu hysgrifennu ac erbyn diwedd y cyfnod, gallant ysgrifennu i wahanol bwrpasau gan atalnodi eu gwaith yn gyson. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio cymariaethau'n llwyddiannus i gyfoethogi eu hysgrifennu. Mae'r goreuon yn ysgrifennu'n annibynnol ar draws y meysydd dysgu gan ddefnyddio geirfa fwy estynedig i greu effaith.

Mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau darllen yn y Gymraeg. Mae ychydig o ddisgyblion hynaf yr ysgol yn darllen yn fecanyddol ac mae diffyg rhuglder a hyder yn nodwedd amlwg o'u darllen. Nid ydynt yn talu digon o sylw i atalnodi. Mae hyn yn amharu ar eu mwynhad a'u dealltwriaeth o'r hyn maent yn ei ddarllen. Mae safonau darllen Saesneg y rhan fwyaf o'r disgyblion ar frig yr ysgol yn datblygu'n dda. Gall y goreuon drafod cynnwys a digwyddiadau o fewn y testun gan ragfynegi'n ystyrlon ar sail yr hyn maent wedi ei ddarllen.

At ei gilydd, mae mwyafrif disgyblion cyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n addas mewn ystod o ffurfiau ysgrifenedig gan ddangos ymwybyddiaeth o nodweddion y gwahanol ffurfiau, a hynny yn y ddwy iaith. Fodd bynnag, nid oes digon o gynnydd yng ngwaith ysgrifennu disgyblion blwyddyn 4, 5 a 6 o ran ystod ac ansawdd. Mae cystrawen ychydig o ddisgyblion yn y Gymraeg yn aneglur. Mae gan y rhan fwyaf well gafael ar gystrawen yn y Saesneg. Maent yn ysgrifennu'n fwy dychmygus yn y Saesneg ac fe ddefnyddir ystod o atalnodi'n fwy cyson. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni

gwaith yn amharu ar y cynnydd ac yn llesteirio ysgrifennu rhydd ac estynedig y disgyblion. Mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn daclus.

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd cyfnod, rhaid trin data am berfformiad yn ofalus gan fod canlyniadau un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ymhob blwyddyn.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) wedi gosod yr ysgol yn y 50% uchaf mewn datblygiad iaith Gymraeg a datblygiad mathemategol ac yn y 50% isaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim. Nid yw cyflawniadau ar y deilliant uwch (deilliant 6) yn cymharu cystal, ac yn gyffredinol maent yn gosod yr ysgol yn y 25% i 50% isaf o gymharu â'r ysgolion hynny.

Mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwyliedig ymhob pwnc craidd (Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf, ond yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau ysgolion y teulu, a Chymru. Mae cyflawniad y disgyblion wedi gosod yr ysgol yn gyson yn y 50% uchaf o'i chymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim dros y ddwy flynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, mae cyflawniad y disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5+) wedi bod yn is na'r teulu o ysgolion a Chymru. Er hynny, mae gwelliant amlwg ym mherfformiad yr ysgol mewn Cymraeg dros y ddwy flynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen nag ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae nifer y disgyblion â'r hawl i ginio am ddim yn rhy fychan i gymharu eu perfformiad yn ystyrlon â'r gweddill.

**Lles: Digonol**

Mae Ysgol Moelfre yn ysgol hapus lle mae'r holl ddisgyblion yn datgan eu bod yn teimlo'n gwbl ddiogel yn yr ysgol. Maent yn ymwybodol o'r camau perthnasol i'w cymryd ac â phwy i siarad os ydynt yn bryderus.

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ymwybyddiaeth gref o sut i fyw'n iach ac maent yn deall pwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer cyson. Caiff hyn ei atgyfnerthu drwy weithgareddau corfforol ar amserlen yr ysgol yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol.

Mae bron pob disgybl yn dangos agwedd gadarnhaol at eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn ymwybodol o'u targedau gyda llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn cymryd rhan weithredol yn eu llunio. Ar draws yr ysgol, mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda iawn. Maent yn gwrtais ac yn ystyriol o'u cyfoedion ac oedolion.

Mae'r cyngor ysgol yn weithredol, ac er nad oes gweithgarwch cyson yn digwydd ar hyn o bryd, mae'r aelodau'n dechrau dangos ymwybyddiaeth o bwysigrwydd helpu eraill trwy gasglu arian at achosion da. Nid yw rôl y cyngor ysgol wedi datblygu'n llawn ac nid yw'n cymryd rôl digon gweithredol ym mywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r gyfradd presenoldeb yn dda ac yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau ysgolion y teulu, a Chymru. Mae wedi bod yn gyson yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ysgol yn darparu ystod briodol o brofiadau dysgu i'r disgyblion. Mae hefyd yn cyfoethogi'r profiadau ymhellach drwy drefnu ymweliadau lleol fel yr enghreifftiau diweddar â chwt bad achub Moelfre a'r Wylfa. Gwahoddir awduron ac artistiaid i'r ysgol yn achlysurol ac mae'r disgyblion yn cael cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau Celf Gymunedol. Mae hyn yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau gwaith priodol ar waith sy'n ymateb i ofynion y Cyfnod Sylfaen a'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau addasu'r cynlluniau gwaith cyfredol er mwyn sicrhau datblygiad yn y medrau. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y datblygiad hwn ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn gadarn ac mae'r disgyblion ieuengaf yn cymryd rôl flaenllaw yn eu dysgu, ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Serch hynny, nid yw hyn yn gyson ar draws y dosbarthiadau.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu a chymhwyso medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn datblygu'n briodol. Er hynny, nid oes digon o gyfleoedd i'r disgyblion ddatblygu medrau rhifedd ar draws yr ystod o bynciau.

Mae'r dimensiwn Cymreig yn treiddio'n llwyddiannus i fywyd a gwaith yr ysgol drwy weithgareddau megis astudio gwaith artistiaid lleol, llenorion Cymru a dathlu Gŵyl Dewi.

Trwy weithgareddau tebyg i'r rhai sy'n seiliedig ar Fotswana, mae ymwybyddiaeth y disgyblion o'u rôl fel dinasyddion byd eang yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddatblygu'r agwedd hon ymhellach. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ailgylchu deunyddiau yn yr ysgol, a thrwy gyfleoedd i fynychu gweithdai yn ymwneud â datblygiad cynaliadwy yn Atomfa'r Wylfa, mae eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn datblygu'n briodol.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio gwersi sy'n ysgogi diddordeb y disgyblion yn effeithiol. Pan mae'r addysgu ar ei orau mae cyflymder da i'r gwersi ac mae cwestiynu effeithiol a heriol yn ymateb i anghenion yr unigolyn. Lle nad yw'r addysgu cystal, mae cyflwyniadau'n rhy hir ac nid yw'r gweithgareddau bob amser wedi eu gwahaniaethu'n addas i ymateb i anghenion pob disgybl. Mae gorgyfarwyddo yn llesteirio disgyblion hynaf yr ysgol rhag cymryd rôl fwy gweithredol yn eu dysgu.

Ar draws yr ysgol, gwneir defnydd da o adnoddau ac mae cydweithio llwyddiannus iawn rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion dysgu i roi cefnogaeth i unigolion a grwpiau penodol.

Mae'r athrawon yn rhannu nodau addysgol yn gyson â'r disgyblion, ac mae disgyblion hynaf yr ysgol yn dechrau gosod eu meini prawf llwyddiant eu hunain. Mae staff yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, ac yn cynnig sylwadau ar ddiwedd y gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r sylwadau bob amser yn ddigon penodol ac nid ydynt yn rhoi digon o arweiniad i'r disgyblion i ddeall sut i wella eu gwaith.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn datblygu'n briodol ond nid ydynt yn gyson ar draws yr ysgol. Ar y cyfan, mae ansawdd yr asesu'n addas. Mae'r ysgol yn dechrau tracio cynnydd disgyblion, ond nid yw hyn wedi'i sefydlu'n gadarn ac ni ddefnyddir canfyddiadau'r asesu yn ddigon effeithiol i osod targedau.

Mae adroddiadau i rieni yn cyfateb i ofynion statudol ac yn cynnig gwybodaeth eglur ar gynnydd eu plant.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol

Mae'r ysgol yn gymuned gartrefol, gofalgar a chynhwysol. Mae trefniadau effeithiol i hyrwyddo iechyd, pwysigrwydd cadw'n heini a diogelwch personol. Fe gyflawnir hyn yn llwyddiannus mewn gwersi ac mewn gweithgareddau allgyrsiol, cymunedol.

Caiff ymwybyddiaeth foesol, ysbrydol a diwylliannol y disgyblion ei datblygu'n llwyddiannus mewn sesiynau addoli ar y cyd ac yn ystod y gwersi.

Mae presenoldeb yr ysgol yn gyson dda a mae ganddi weithdrefnau cadarn ar waith sy'n sicrhau bod disgyblion a rhieni'n ymwybodol o'i disgwyliadau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu yn cwrdd â gofynion statudol ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol yn adnabod y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn darparu cynlluniau addysg unigol priodol ar eu cyfer. Gwneir defnydd llawn o asiantaethau ac unigolion arbenigol i gefnogi ac arwain disgyblion a staff. Mae'r ysgol yn trefnu cyfarfodydd adolygu rheolaidd a gweithredir yn effeithiol ar yr argymhellion. Mae'r rhieni a gofalwyr yn cael eu cynnwys yn yr holl brosesau.

### Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r plant yn ganolog i fywyd yr ysgol ac maent yn mwynhau bod yn yr ysgol. Maent yn ofalus o'i gilydd ac yn dangos parch at eu cyd-ddisgyblion ac at oedolion. Mae pawb yn cael mynediad llawn i bob agwedd ar fywyd a gwaith yr ysgol ac fe ddethlir gwahaniaeth ac amrywiaeth yn llwyddiannus. Cefnogir y trefniadau hyn gan ddogfennaeth a pholisïau sydd wedi eu mabwysiadu a'u hadolygu gan y llywodraethwyr.

Mae'r ysgol ar safle eang braf ac fe wneir defnydd priodol o'r adeilad a'r tir o gwmpas. Fodd bynnag, nid yw'r ardal y tu allan wedi'i ddatblygu'n llawn hyd yma. Mae ystafelloedd a choridorau'r ysgol yn cynnwys arddangosfeydd lliwgar a symbylus sy'n cyflwyno gwybodaeth i helpu'r dysgu a'r addysgu. Mae'r ysgol yn elwa o neuadd addas ac ystafell gerdd bwrpasol, a defnyddir y llyfrgell gymunedol gan y disgyblion yn rheolaidd. Gwneir defnydd llawn o'r cae pêl-droed gan y disgyblion a thîm y gymuned leol. Mae uned hwyrddyfodiaid ar safle'r ysgol yn ogystal ag uned ôl-gynnydd Eilian sy'n rhoi cymorth gwerthfawr i ddisgyblion Ysgol Moelfre yn ôl yr angen.

Mae'r toiledau'n dderbyniol ac fe gaiff yr adeilad a thir yr ysgol eu cynnal a'u cadw'n dda a graenus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a phendant ar gyfer yr ysgol ac ers ei phenodiad diweddar mae wedi hyrwyddo nifer o weithdrefnau a strategaethau ysgol gyfan sydd eisoes yn cael effaith ar safonau'r Cyfnod Sylfaen a safonau darllen.

Mae'r pennaeth yn arwain ac yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r staff i ddatblygu cymuned weithgar a gofalgar sy'n cael dylanwad cadarnhaol ar gyflawniad disgyblion. Mae'r ysgol yn ymwybodol o'r agweddau sydd angen eu datblygu ymhellach ac mae nifer o strategaethau ar waith. Dan arweiniad y pennaeth, mae dealltwriaeth yr athrawon o berfformiad yr ysgol yn datblygu'n briodol.

Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau; serch hynny, nid yw rôl y tîm rheoli wedi datblygu digon i gael effaith gadarnhaol ar safonau'r ysgol.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd yr ysgol. Maent yn derbyn adroddiadau am berfformiad yr ysgol, ac mae eu dealltwriaeth yn datblygu'n briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn herio yr ysgol yn briodol ac yn ei dwyn i gyfrif am ei pherfformiad.

Llwydda'r ysgol i roi sylw i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol drwy gynllunio'n addas ar gyfer datblygu llythrennedd a rhifedd a hyrwyddo dwyieithrwydd yn effeithiol. Cafodd y Cyfnod Sylfaen ei sefydlu yn briodol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae adroddiad hunanarfarnu diweddar yr ysgol yn adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol yn briodol, ac mewn byr amser mae'r pennaeth wedi dod i adnabod yr ysgol yn dda. Erbyn hyn, mae'r trefniadau yn cymryd ystyriaeth briodol o farn y staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion. Serch hynny, nid yw'r adroddiad yn ddigon arfarnol na dadansoddol mewn mannau.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o adroddiadau monitro'r awdurdod lleol, adroddiadau pynciol, arsylwadau gwersi a samplau o waith y disgyblion wrth arfarnu perfformiad yr ysgol. Mae hyn yn ddatblygiad diweddar, ac nid oes digon o dystiolaeth i arfarnu i ba raddau y mae'r broses yn dylanwadu ar flaenoriaethau gwella'r ysgol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn amlinellu blaenoriaethau priodol, sy'n ffocysu ar godi safonau, ond nid oes digon o gyswllt rhyngddo a'r adroddiad hunanarfarnu. Mae'r cynllun yn nodi'r person sydd â chyfrifoldeb ynghyd â'r amser gweithredu, ond nid ydynt wedi eu costio'n ddigon manwl. Yn gyffredinol, nid yw'r targedau'n ddigon penodol na meintiol. O ganlyniad, nid yw'n hawdd i'r llywodraethwyr adolygu'r cynnydd a mesur effeithiolrwydd y cynllun er mwyn gosod cyfeiriad strategol i'r ysgol.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i ddatblygu'i staff yn broffesiynol. Mae nifer ohonynt yn manteisio ar fynychu hyfforddiant ynghyd â chydweithio ag ysgolion eraill i drafod cynllunio, codi safonau llythrennedd a safoni gwaith y disgyblion. Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar safonau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag amrediad o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae'r bartneriaeth gyda rhieni yn datblygu'n briodol ac maent yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae cysylltiadau niferus â'r gymuned leol ac ehangach yn cael dylanwad cadarnhaol ar y profiadau dysgu megis ymweliadau ag addoldai, clybiau chwaraeon ac Atomfa'r Wylfa.

Ceir perthynas dda iawn rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin sy'n hyrwyddo trefniadau pontio hwylus a llwyddiannus i'r disgyblion.

Mae cysylltiadau effeithiol gydag asiantaethau amrywiol yn hybu lles a diwallu anghenion penodol disgyblion. Cydweithia'r ysgol yn briodol gyda chlwstwr o ysgolion yn y dalgylch, ynghyd ag ysgolion y teulu, i gymedroli asesiadau athrawon. Mae'r gwaith hwn hefyd yn canolbwyntio yn effeithiol ar strategaethau llythrennedd a rhifedd ac ar rannu arfer dda. Mae gweithgareddau safoni a chymedroli gwyddoniaeth rhwng ysgolion wedi bod yn llwyddiannus ac wedi cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol. Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o wasanaethau'r awdurdod lleol ar gyfer datblygu a chefnogi'r staff er mwyn codi safonau ymhellach.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli gyda'r ysgolion uwchradd lleol ac mae trefniadau pontio yn effeithiol i sicrhau trosglwyddo esmwyth i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff ac fe wneir defnydd effeithiol o'u harbenigedd i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Mae'r cymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol ac yn rhoi cefnogaeth briodol i'r disgyblion. Mae gan yr ysgol ystod briodol o adnoddau dysgu, ac mae'n manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi'r ddarpariaeth.

Mae trefniadau rheoli perfformiad pwrpasol ar waith ar gyfer athrawon. Mae'r staff i gyd yn elwa o hyfforddiant addas sy'n cael ei drefnu ar sail anghenion unigolion a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn bodloni gofynion statudol yn ymwneud â baich gwaith athrawon.

Mae'r ysgol mewn dyled ariannol ar hyn o bryd. Serch hynny, mae'n cydweithio'n llwyddiannus gyda'r awdurdod drwy weithredu cynllun adfer priodol i ddelio â'r diffyg yn y gyllideb.

O ystyried deilliannau'r disgyblion, mae'r ysgol yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan mai nifer cymharol fach o ddisgyblion sy'n cael eu hasesu ar ddiwedd cyfnod, rhaid trin data am berfformiad yn ofalus gan fod canlyniadau un plentyn yn cyfri am ganran uchel o'r garfan ymhob blwyddyn.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2012, mae cyflawniadau ar y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) ychydig yn is na chyfartaleddau ysgolion y teulu ymhob maes dysgu. Mae perfformiad yr ysgol yn y 50% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim mewn iaith a chyfathrebu yn y Gymraeg a datblygiad mathemategol, ac yn y 50% i'r 25% isaf mewn datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol a phersonol.

Mae perfformiad yr ysgol ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel ddisgwyliedig ymhob pwnc craidd (Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth) wedi amrywio dros y pum mlynedd diwethaf, ond wedi gostwng ychydig yn 2012. Er hynny, mae cyflawniad y disgyblion wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim am ran helaeth o amser.

Mae perfformiad ar y lefel ddisgwyliedig (lefel 4+) mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn is na chyfartaleddau o ysgolion y teulu, a Chymru am ddwy o'r tair blynedd diwethaf. Yr un yw'r darlun ar lefelau uwch (lefel 5) ac yn gyffredinol mae wedi bod yn is na'r teulu o ysgolion a Chymru. Fodd bynnag, mae canran y disgyblion a gyrhaeddodd lefel uwch yn y Gymraeg wedi codi dros y ddwy flynedd diwethaf.

Yn gyffredinol, nid oes bwlch arwyddocaol rhwng cyflawniadau'r bechgyn a'r merched ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Dros gyfnod o amser, mae bechgyn ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 wedi cyflawni'n well na'r merched ar y lefelau uwch (lefel 5+) mewn mathemateg.

## Atodiad 2

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Derbyniwyd 24 o ymatebion gan ddisgyblion cyfnod allweddol 2. Mae'r ymatebion yn rhoi darlun cadarnhaol sydd o gwmpas neu'n uwch na'r cyfartaleddau cenedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ar gyfer bron pob agwedd.

**Derbyniwyd 24 o ymatebion gan ddisgyblion**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. Mae pob un o'r disgyblion yn gwybod pwy i siarad ag ef/hi os ydynt yn poeni. Mae pob disgybl hefyd yn nodi eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a bod yr athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. Maent yn gwybod beth i wneud, a phwy i droi ato, os ydynt yn gweld y gwaith yn anodd. Mae bron pob un yn credu bod llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd a bod yr ysgol yn eu dysgu sut i gadw'n iach. Mae llawer yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith. Mae pob disgybl yn teimlo bod y plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

**Ymatebion i'r holiadur i rhieni**

**Derbyniwyd 14 o ymatebion gan rieni**

Mae ymatebion y rhieni yn gadarnhaol iawn ac yn gyffredinol yn cymharu'n ffafriol â chyfartaleddau cenedlaethol. Mae pob rhiant yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod eu plentyn yn hoffi'r ysgol a'u bod yn teimlo'n ddiogel yno. Mae pob rhiant yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol, ac yn teimlo bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da. Maent hefyd yn cytuno bod yr addysgu'n dda a bod y staff yn disgwyl i'w plentyn weithio'n galed a gwneud ei orau. Mae pob un yn nodi bod eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol ac yn cytuno eu bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plentyn. Mae pob rhiant yn teimlo'n ddiogel ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. Mae llawer ohonynt yn ymwybodol o drefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion, sy'n is na chyfartaleddau cenedlaethol. Mae pob rhiant yn teimlo bod eu plentyn yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd.

Mae pob rhiant yn teimlo bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Anwen Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Glenda Jones | Arolygydd Lleyg |
| Sarah Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Bethan Wyn Jones | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.